

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf, Canolfan
Ddeintyddol Cyfarthfa**

2 Rhagfyr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau gwahanol neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiâu o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	9
5.	Y Camau Nesaf.....	15
6.	Methodoleg	16
	Atodiad A.....	18

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cwblhaodd AGIC arolygiad yng Nghanolfan Ddeintyddol Cyfarthfa yn Rookwood House, Gwaelod-y-garth Lane, Merthyr Tudful ar 2 Rhagfyr 2015.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Canolfan Ddeintyddol Cyfarthfa yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â'r safonau a chanllawiau.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Cyfarthfa yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Merthyr Tudful. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae Canolfan Ddeintyddol Cyfarthfa yn bractis cymysg, sy'n darparu gwasanaethau deintyddol y GIG yn bennaf, a rhai gwasanaethau preifat.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd a dwy nyrs.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y practis wedi agor yn ddiweddar dan berchnogaeth newydd y prif ddeintydd, ar ôl bod ar gau cyn hyn ers mis Mehefin 2015. Gwnaethpwyd gwaith adnewyddu sylweddol i'r practis, ac roedd cynlluniau i agor ail ystafell driniaeth fel y gallai deintydd arall ymuno â thîm y staff.

3. Crynodeb

Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod y practis yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gawsom drwy holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol. Mae gan y practis gynlluniau i gasglu ac adolygu adborth cleifion yn rheolaidd, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom argymhell diweddariadau i bolisi cwyno'r practis, er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol.

Roedd y practis wedi'i adnewyddu a'i foderneiddio i ansawdd uchel. Gwnaeth gleifion sylwadau eu bod yn hapus â'r gwelliannau a oedd wedi'u gwneud, a'u bod yn falch bod y practis wedi ailagor.

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon â'r trefniadau a oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Gwnaethom argymhell y dylid gwneud diweddariadau i'r polisi rheoli heintiau, ac y dylid cynnal archwiliad rheoli heintiau. Roeddem yn fodlon bod yr offer radiograffeg yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.

Am fod y practis o fewn ei ychydig wythnosau cyntaf o weithredu, roedd nifer cyfyngedig o gofnodion cleifion i ni eu gweld. Dangosodd y sampl fach a welsom fod y gwaith o gadw cofnodion yn addas, a bod nodiadau cleifion yn ddigon manwl.

Gwelsom fod polisiâu, gweithdrefnau a threfniadau rheoli yn newydd, a'u bod yn dal yn y broses adolygu a datblygu. Gwnaethom argymhell rhai gwelliannau i'r polisiâu a gweithdrefnau, a datblygiad rhaglen gyfarwyddo ffurfiol i staff. Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau addas ar waith er mwyn galluogi rheolaeth effeithiol y practis.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod y practis yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gawsom drwy holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol. Mae gan y practis gynlluniau i gasglu ac adolygu adborth cleifion yn rheolaidd, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Gwnaethom argymhell diweddariadau i bolisi cwyno'r practis, er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol.

Roedd y practis wedi'i adnewyddu a'i foderneiddio i ansawdd uchel. Gwnaeth gleifion sylwadau eu bod yn hapus â'r gwelliannau a oedd wedi'u gwneud, a'u bod yn falch bod y practis wedi ailagor.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael safbwyntiau ynghlŷn â'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd 13 holiadur atom. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'n wych gweld y practis ar agor eto; mae'r staff wedi bod yn wych ac mae'r newidiadau i'r adeilad yn welliant gwych!"

"Practis hyfryd. Fel claf nerfus, mae ymweld â fan hyn yn gwneud pethau'n haws."

"Mae'r practis wedi'i adnewyddu'n edrych yn anhygoel. Mor falch o ddod yn ôl."

Gofal gydag urddas

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron yn unfrydol gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo iddynt gael croeso gan y staff.

Gwnaethom sylwi y gellir clywed lleisiau o'r ystafell driniaeth yn y man aros cyfagos i gleifion, o achos maint a gofod cyfyngedig y practis. Gallai hyn olygu y gellid clywed sgysiau ynghylch triniaeth cleifion. Dywedwyd wrthym fod cerddoriaeth yn chwarae yn yr ystafell aros fel arfer, sy'n helpu â hyn, ond gwnaethom argymhell bod staff yn ymwybodol o sefyll yn agos at ddrws yr

ystafell driniaeth wrth siarad â chleifion. Gwnaethom hefyd argymhell bod y practis yn adolygu'r mater hwn, fel rhan o warchod preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd y cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis adolygu'r potensial i sgysiau o du mewn i'r ystafell driniaeth gael eu clywed yn yr ystafell aros, er mwyn sicrhau bod preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion yn cael eu gwarchod.

Yn dilyn yr adolygiad hwn, dylai'r practis nodi unrhyw gamau sydd eu hangen er mwyn gwarchod cyfrinachedd cleifion ymhellach.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol. Dywedwyd wrthym fod system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Am fod y practis wedi ailagor yn ddiweddar, dywedwyd wrthym fod rhan fwy o'r slotiau apwyntiadau brys wedi'u cadw bob dydd ar gyfer cleifion sy'n dychwelyd ac sydd angen triniaeth brys.

Dyweddodd yr holl gleifion wrthym nad oeddent wedi profi oedi cyn cael eu gweld gan y deintydd, a'u bod yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol tu allan i oriau. Gwelsom arwydd ym mynedfa'r practis a oedd yn cynnwys manylion y rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng, fel bod cleifion yn gallu cael mynediad at ofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau.

Cadw'n iach

Dyweddodd yr holl gleifion a lenwodd yr holiaduron wrthym eu bod yn derbyn digon o wybodaeth ynglŷn â'u triniaethau. Roedd gan y practis sgriniau teledu ym mhob un o'r ardaloedd aros, a oedd wedi'u llwytho â gwybodaeth hyrwyddo iechyd. Cadarnhaodd y prif ddeintydd fod ganddynt sawl DVD gyda gwahanol wybodaeth hyrwyddo iechyd, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch canser y geg, clefyd y deintgig ac iechyd y geg.

Gofal unigol

Trwy drafodaethau â staff ar ddiwrnod yr arolygiad, roeddem yn gallu dod i'r casgliad fod y practis wedi ystyried eu cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Dangosodd drafodaethau â'r prif ddeintydd fod hygyrchedd wedi'i ystyried yn ofalus fel rhan o'r gwaith adnewyddu ar yr adeilad. Ar y cyfan, mae mynediad i'r

practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a chleifion eraill sydd ag anawsterau symudedd. Roedd y practis wedi archebu ramp mynediad symudol a wnaethpwyd yn arbennig ar gyfer y gris bach tu allan i'r practis, ac un gris yn yr ystafell aros. Roedd ramp dros dro hefyd ar gael. Roedd gan yr ail ystafell driniaeth (a oedd yn cael ei datblygu) ddrws llydan er mwyn galluogi mynediad hawdd i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Gwnaethom argymhell i'r practis ei fod yn arddangos y wybodaeth ganlynol i gleifion:

- Rhestr brisiau preifat (roedd rhestr brisiau'r GIG wedi'i harddangos eisoes)
- Tystysgrif gofrestru AGIC y deintydd mewn ardal y gellir ei gweld yn hawdd gan gleifion
- Enwau, swyddogaethau a rhifau cofrestru Cyngor Deintyddol Cyffredinol yr holl staff sy'n gweithio yn y practis

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid arddangos y wybodaeth ganlynol er mwyn i gleifion ei gweld: rhestr brisiau preifat, tystysgrif gofrestru AGIC, ac enwau, swyddogaethau a rhifau cofrestru Cyngor Deintyddol Cyffredinol yr holl staff.

Trafodom y modd y byddai'r practis yn casglu adborth gan gleifion yn rheolaidd, a dywedwyd wrthym fod cynlluniau i gynnal holiadur cleifion bob chwe mis fel modd o asesu ansawdd y gofal a ddarperir. Gwelsom hefyd fod blwch awgrymiadau yn y dderbynfa.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn i'r holl gleifion godi pryderon (cwynion). Serch hynny, gwelsom fod angen y diweddariadau canlynol er mwyn cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer lleisio pryderon ynghylch triniaethau'r GIG (a adnabyddir fel 'Gweithio i Wella') a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008:¹

- Roedd angen diweddarau'r graddfeydd amser ar gyfer cydnabod ac ymchwilio i gwynion, er mwyn cydymffurfio â Gweithio i Wella (dau a 30 diwrnod yn eu tro), a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (tri a deg diwrnod)

¹ Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

- Roedd angen disodli'r cyfeiriadau anghywir at sefydliadau y dylai'r cleifion gysylltu â nhw sy'n berthnasol yn Lloegr yn unig (e.e. Ombwdsman Seneddol, Comisiwn Ansawdd Gofal, Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol ac ati) gyda'r cywerthoedd cywir yng Nghymru (Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, cyngor iechyd cymuned a'r bwrdd iechyd lleol)
- Roedd angen i'r polisi cwyno fod yn fwy eglur o ran y weithdrefn a'r sefydliadau y dylai'r cleifion gysylltu â nhw, yn dibynnu p'un a ydynt yn derbyn triniaeth breifat neu'r GIG
- Dylid arddangos y weithdrefn gwyno fel bod modd ei weld yn hawdd gan gleifion

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid diweddarau'r weithdrefn gwyno i gydymffurfio â gofynion Gweithio i Wella a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

Dylid arddangos y weithdrefn gwyno lle gall cleifion ei gweld yn hawdd.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gwynion wedi'u derbyn hyd yn hyn. Gwelsom fod logiau cryno ar gyfer cofnodi cwynion llafar ac ysgrifenedig, a dywedwyd wrthym y byddai ffeil gwyno yn cael ei chreu unwaith y bydd ei hangen.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon â'r trefniadau a oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Gwnaethom argymhell y dylid gwneud diweddariadau i'r polisi rheoli heintiau a bod archwiliad rheoli heintiau yn cael ei gynnal. Roeddem yn fodlon bod yr offer radiograffeg yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.

Am fod y practis o fewn ei ychydig wythnosau cyntaf o weithredu, roedd nifer cyfyngedig iawn o gofnodion cleifion i ni eu gweld. Dangosodd y sampl fach a welsom fod y gwaith o gadw cofnodion yn briodol, a bod nodiadau cleifion yn ddigon manwl.

Gofal diogel

Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi eu cynnal yn ddiweddar i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Roedd y gwaith adnewyddu diweddar wedi'i wneud â gofal, er mwyn darparu cleifion ag amgylchedd diogel a phleserus i dderbyn triniaeth ynddo.

Roedd diffoddwr tân mewn lle ac wedi'i osod yn newydd. Roedd trefniadau ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwnaethom sylwi bod y contractwr gwastraff wedi darparu'r math anghywir o gynhwysydd offer miniog i'r practis ar gyfer y defnydd a fwriedir. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn gan y prif ddeintydd ar ddiwrnod yr arolygiad.

Rheoli heintiau

Roeddem yn fodlon â'r trefniadau i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd gwelsom dystiolaeth o fesurau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith

sydd wedi'u seilio ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.² Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd cyfarpar glanhau a sterileiddio newydd wedi'i osod yn ddiweddar
- Roedd cyfarpar diogelu personol - megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid - ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinc penodol i olchi dwylo
- Llyfrau cofnod ar gyfer gwirio bod offer yn cael eu cadw mewn cyflwr da
- Roedd offer wedi'u storio'n briodol ac wedi'u dyddio

Dywedwyd wrthym fod y broses ar gyfer dadheintio offer wedi newid a'i gwella ers y system a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan y nyrsys deintyddol yn y practis. Dywedwyd wrthym fod staff yn dal i ddod i arfer â'r system newydd - er eu bod yn gallu glanhau offer yn effeithiol. Gwnaethom argymhell bod staff yn ymgymryd â hyfforddiant dadheintio ffurfiol, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Gwnaethom hefyd ganfod nad oedd y practis wedi archwilio eu harferion rheoli heintiau eto, a gwnaethom argymhell bod hyn yn cael ei wneud yn ddi-oed er mwyn nodi unrhyw welliannau sydd eu hangen yn y trefniadau presennol. Gwnaethom argymhell bod y practis yn defnyddio'r dull a ddatblygwyd gan Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru, fel sy'n cael ei argymhell yn y canllawiau penodol i Gymru, Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai staff ymgymryd â hyfforddiant dadheintio.

Dylid cynnal archwiliad rheoli heintiau.

² <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444>

Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru

Roedd cyfarpar dadebru newydd a chyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys ar gael yn y practis, ac roedd trefniadau ar waith i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewygu/cwypmo). Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd. Er nad oedd llyfrau presgripsiwn yn hawdd cael mynediad atynt gan unigolyn heb awdurdod, rydym yn argymhell y dylid eu storio mewn modd mwy diogel. Gwnaethom hefyd gynghori bod y practis yn sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid storio llyfrau presgripsiwn yn ddiogel.

Dylai'r practis sicrhau bod yno staff sydd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

Diogelu

Gwnaethom ganfod bod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd gan y practis bolisiau diogelu ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys cysylltiadau diogelu lleol. Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant. Roedd y deintydd wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu oedolion sy'n agored i niwed. Nid oedd hyn wedi'i gwblhau gan y nyrsys deintyddol, ond dywedwyd wrthym eu bod wedi archebu lle ar gwrs ym mis Chwefror 2016.

Roedd trefniadau ar waith er mwyn i staff godi unrhyw bryder. Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn ymgymryd â gwiriadau cyn-cyflogi gydag unrhyw aelod newydd o staff, sy'n cynnwys tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ar adeg ein harolygiad, roedd gan y deintydd dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Offer radiograffeg

Roedd y peiriant pelydr-X wedi'i osod yn ddiweddar, ac anfonwyd y dystysgrif gosod a gwirio atom ar ôl yr arolygiad, a oedd yn cadarnhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chymryd radiograffau wedi cwblhau hyfforddiant i fodloni'r safonau

ar gyfer gweithwyr sy'n cynnal y gweithdrefnau hyn. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol³ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwelsom fod y practis wedi creu llyfr cofnod archwilio ar gyfer radiograffau, ond gwnaethom sylwi nad oedd y wybodaeth wedi'i chwblhau ar adeg cymryd y pelydrau-X, ac nid oedd rhai graddau o ansawdd y llun wedi'u cynnwys. Gwnaethom argymhell bod y practis yn gwella'r trefniadau hyn, fel y gellid cynnal archwiliadau radiograffeg effeithiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid gwneud gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer archwiliadau sicrhau ansawdd radiograffau.

Gofal effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi gwneud cysylltiadau â phractis annibynnol arall yn yr ardal, a'u bod wedi trafod trefniadau er mwyn i'r deintyddion gynnal arfarniadau ac archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda'i gilydd, fel ffordd o sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. Dywedwyd wrthym fod y deintydd hefyd yn gwneud cwrs hyfforddi ychwanegol ôl-raddedig ar hyn o bryd, ac mae hefyd yn derbyn cefnogaeth a goruchwyliaeth drwy hwnnw.

Am fod y practis wedi agor yn ddiweddar, nid oedd llawer o gofnodion cleifion i ni eu gweld. Dangosodd y sampl fach a welsom fod y gwaith o gadw cofnodion yn briodol, a bod nodiadau cleifion yn ddigon manwl.

Gwelsom fod trefniadau priodol i gleifion gwblhau ffurflenni hanes meddygol drwy system electronig, a gaiff eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion wedyn.

³ Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom fod polisiau, gweithdrefnau a threfniadau rheoli yn newydd, a'u bod yn dal yn y broses adolygu a datblygu. Gwnaethom argymhell rhai gwelliannau i'r polisiau a'r gweithdrefnau, a'r datblygiad o raglen gyfarwyddo ffurfiol i staff. Yn gyffredinol, gwelsom fod cynlluniau addas ar waith er mwyn galluogi gwaith rheoli effeithiol yn y practis.

Roedd y practis wedi agor yn ddiweddar, a chyfrifoldeb y prif ddeintydd yw gwaith rheoli dydd i ddydd y practis. Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a ymddangosai'n hapus ac yn gymwys i gyflawni eu rolau. Dywedwyd wrthym fod y prif ddeintydd wedi gwneud cysylltiadau â phractis annibynnol arall yn yr ardal ar gyfer cefnogaeth a chydweithio. Gwnaethom gymeradwyo'r trefniadau hyn, yn benodol oherwydd mai tîm bach o staff oedd gan y practis, a allai ddod yn ynysedig fel arall.

Gwelsom esiampl o gofnodion i ddangos bod staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl a'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Dywedwyd wrthym y byddai'r deintydd yn cynnal arfarniadau i'r staff nyrsio, ac y byddai'r deintydd yn derbyn arfarniad wedi'i gynnal gan ddeintyddion mewn practis arall.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat, roedd y deintydd sy'n darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru ag AGIC.

Gwelsom fod cofnodion am statws imiwnedd hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Roedd y practis yn cynllunio cynnal cyfarfodydd staff yn fisol, a gwelsom nodiadau o'r cyfarfod staff cyntaf. Gwnaethom awgrymu bod y practis yn cofnodi'n glir unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn, fel bod modd cyfeirio atynt yn hawdd yn y dyfodol. Am mai tîm bach o staff oedd yn y practis, dywedwyd wrthym y byddai trafodaethau rheolaidd anffurfiol ynghylch unrhyw bryderon sy'n codi.

Am fod y practis o fewn ei wythnosau cyntaf o weithredu, gwelsom fod polisiau, gweithdrefnau a threfniadau rheoli yn newydd ac yn dal yn y broses adolygu a datblygu. Gwelsom fod angen y gwelliannau canlynol i'r polisiau a gweithdrefnau (yn ychwanegol i'r sawl sydd wedi'u gosod eisoes yn yr adroddiad hwn):

- Roedd angen creu polisi iechyd a diogelwch

- Roedd angen polisi sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer gwarchod preifatrwydd ac urddas cleifion
- Roedd angen diweddarau'r polisi rheoli heintiau gyda'r canllawiau cywir, sy'n benodol i Gymru, o Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, yn hytrach na'r fersiwn i Loegr. Gwnaethom sylwi bod y polisi yn hir iawn, a gwnaethom argymhell y dylid creu crynodeb neu lif proses er mwyn i staff allu cyfeirio ato'n hawdd.

Yr hyn sydd angen ei wella:

O ran polisiau'r practis, roedd angen y gwelliannau canlynol:

- ***Mae'n rhaid creu polisi iechyd a diogelwch***
- ***Mae'n rhaid creu polisi preifatrwydd ac urddas***
- ***Mae'n rhaid diweddarau'r polisi rheoli heintiau***

Dywedwyd wrthym fod y practis yn bwriadu cyflogi nyrs ddeintyddol ychwanegol a deintydd arall, unwaith y bydd yr ail ystafell driniaeth wedi'i chwblhau. Gwnaethom drafod y trefniadau ar gyfer cyfarwyddo staff newydd, a gwelsom nad oedd rhaglen gyfarwyddo ffurfiol wedi'i datblygu eto. O achos newydd-deb y tîm staff a bod cynlluniau ar gyfer mwy o recriwtio, gwnaethom argymhell bod hon yn cael ei datblygu fel blaenoriaeth, er mwyn sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn gyfarwydd â'u lleoliad gwaith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid creu rhaglen gyfarwyddo ffurfiol ar gyfer yr holl staff newydd ac unrhyw staff dros dro.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghanolfan Ddeintyddol Cyfarthfa yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau rydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁴ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.⁵ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol:Cynllun Gwella

Practis: Canolfan Ddeintyddol Cyfarthfa

Dyddiad yr Arolygiad: 2 Rhagfyr 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
6	<p>Dylai'r practis adolygu'r potensial y gellir clywed sgysiau sydd tu mewn i'r ystafell driniaeth o'r ystafell aros, er mwyn sicrhau bod preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion yn cael eu gwarchod.</p> <p>Yn dilyn yr adolygiad hwn, dylai'r practis nodi unrhyw gamau angenrheidiol sydd eu hangen i warchod cyfrinachedd cleifion ymhellach.</p>	Safonau Iechyd a Gofal 4.1			
7	Dylid arddangos y wybodaeth ganlynol er mwyn i gleifion ei gweld:	Rheoliadau Deintyddiaeth			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	rhestr brisiau preifat, tystysgrif gofrestru AGIC, ac enwau, swyddogaethau a rhifau Cyngor Deintyddol Cyffredinol y staff.	Breifat (2008 a diwygiad 2011), Adran 28 (1); Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Adran 2.4.1 – 2.4.2; 6.6.1			
8	Mae'n rhaid diweddarau'r weithdrefn gwyno er mwyn cydymffurfio â gofynion Gweithio i Wella a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Dylid arddangos y weithdrefn gwyno lle gellir ei gweld gan gleifion yn hawdd.	Safonau Iechyd a Gofal 6.3; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru), Adran 15 (4a); Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.3			
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
10	Dylai staff ymgymryd â hyfforddiant dadheintio.	Canllawiau Memorandwm			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Dylid cynnal archwiliad rheoli heintiau.	Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adrannau 1.8 a 24o			
11	Dylid storio llyfrau presgripsiwn yn ddiogel. Dylai'r practis sicrhau bod yno gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf.	Safonau Iechyd a Gofal 2.1; 2.6; 7.1			
12	Dylid gwneud gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer archwiliadau sicrhau ansawdd radiograffau.	Safonau Iechyd a Gofal 2.9; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000			
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
14	O ran polisiâu'r practis, roedd angen y gwelliannau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid creu polisi 	Safonau Iechyd a Gofal 2.1; 4.1; 2.4			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>iechyd a diogelwch</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid creu polisi preifatrwydd ac urddas Mae'n rhaid diweddarau'r polisi rheoli heintiau 				
14	Dylid creu rhaglen gyfarwyddo ffurfiol ar gyfer yr holl staff newydd a dros dro.	Safonau Iechyd a Gofal 7.1			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):

.....

Teitl:

.....

Dyddiad:

.....